

Pwyllgor :	Pwyllgor Safonau
Dyddiad :	12 Mawrth 2018
Teitl :	Hyfforddiant Cyngorau Cymuned
Awdur :	Swyddog Monitro
Pwrpas :	Cwyflwyno trefn amgen darparu hyfforddiant i Gyngorau Tref a Chymuned

Cefndir

Mae gan y Pwyllgor Safonau y swyddogaethau canlynol

- hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gyngorwyr ac Aelodau cyfetholedig yr Awdurdod;
- cynorthwyo'r Gyngorwyr a'r Aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau;
- cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau;
- monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau;
- cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Gyngorwyr ac Aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud a'r Cod Ymddygiad Aelodau.

Yn unol ag adran 56 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mae'r swyddogaethau yma yn ymestyn i Gyngorau Tref a Chymuned Gwynedd. Mae cyfanswm o 64 o gyngorau o'r fath yng Ngwynedd yn disgyn o fewn cwrpawd cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau. Ar draws Cymru mae'r nifer o Gyngorau Tref a Chymuned fesul Cyngor Sir yn amrywio o 1 ym Merthyr i 111 ym Mhowys. Fel ardal wledig fawr mae Gwynedd ymhlith yr uchaf o ran niferoedd.

Trefn Hyfforddi

Mae oblygiadau ymarferol i'r uchod o safbwynt cynnal presenoldeb a chyswllt gyda'r Gyngorau yma. Rydym yn cysylltu yn lled reolaidd gyda newidiadau i'r Cod neu faterion megis trefn datrys fewnol UNLLAIS. Yn ychwanegol mae neges gyffredinol drwy arweiniad yr Ombudsman a gennym yn y swyddfa ein bod ar gael i ddarparu cyngor a chefnogaeth. Mae amryw o glercod yn manteisio ar y gefnogaeth o bryd i'w gilydd.

Rydym hefyd yn darparu hyfforddiant yn achlysurol. Mae'r niferoedd sydd yn mynychu o ystyried nifer cyfansawdd y cynghorwyr cymuned sydd yng Ngwynedd yn golygu nad ydym yn cyrraedd trwch helaeth yr aelodau. Y tro diwethaf i ymarferiad ddigwydd cynhaliwyd sesiynau yng Nghaernarfon, Bala, Pwllheli a Dolgellau. Roedd y cynnwys hefyd wedi ei greu ar ôl ymgynghori a chlercod. Cafwyd derbyniad da i'r cyflwyniadau a niferoedd eithaf yn mynychu . Fodd bynnag mae trefnu cwrs mewn lleoliad ac amser arbennig yn ddarostyngedig i nifer o ffactorau all ddylanwadu ar bwy sydd a gall fynychu.

Yn dilyn trafodaeth gyda Swyddogion Monitro eraill gydag ardaloedd cyffelyb crybwyllwyd modd gwahanol o fynd ati sef cynnig darparu hyfforddwr i sesiwn sydd yn cael ei drefnu'n lleol. Yn syml petai'r Pwyllgor yn cefnogi y bwriad fyddai ysgrifennu at glercod yn cynnig darparu hyfforddwr i ddod i gynnal sesiwn awr a hanner i'w hardal a hynny am gost enwol . Gellir teilwrio'r cynnwys i ateb i'r gofyn lleol ond gyda chwrs sylfaenol ar y Cod ac ymarfer scenario. Y Cyngor lleol fyddai'n trefnu'r cwrs.

Byddai angen bod yn fyw na ellir cynnal nifer helaeth mewn blwyddyn a byddai anogaeth gryf I gynghorau gyd-weithio. Ar y llaw arall mae'n ymddangos yn ffordd ymarferol yn fy marn i o ddarparu hyfforddiant sydd yn cyfarch y swyddogaeth tuag at Gynghorau Cymuned ond hefyd yn ddigon hyblyg i ymateb i ofynion lleol.

Argymhelliad

Fod peilot yn cael ei gynnal am flwyddyn sistem hyfforddiant darparu hyfforddwr ar y Cod Ymddygiad i Gynghorau Tref a Chymuned yn unol â'r adroddiad.